

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos
Sadwrn, 7 Ionawr, 2012 yn Rhyd Ddu**

Presennol: Presennol: Arwel (AR) – Cadeirydd, Guto (GE), Rhys (RD), Iolo (IPR), Sian (SS), Gareth (GR), Marion (MH), Alwen (AW), John (JP), Maldwyn (MPR), Anita (AD).

Ymddiheuriadau: Dai, Iolo,

1.	COFNODION	Gweithredu
	<p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2011</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eitem 2 – Canllawiau Teithiau'r Clwb</u> Nodwyd y dylai'r cofnod gyfeirio at Dilwyn Jones ac nid Dilwyn Williams</p>	
2.	<p>MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLYNYDDOL</p> <p>Ystyriwyd y materion canlynol a oedd wedi eu trafod yn y cyfarfod blynyddol yn Nolgellau ar 29 Hydref, 2011</p> <p><u>Cofnodi Pwyntiau Cyswllt</u></p> <p>Roedd y cyfarfod blynyddol wedi rhoi ymlaen y syniad o bob aelod gario cerdyn yn cofnodi pwynt cyswllt ac yn nodi unrhyw ystyriaethau meddygol y gellid effeithio ar driniaeth feddygol. Roedd MPR wedi paratoi fersiwn o'r cerdyn i'r pwyllgor ei ystyried.</p> <p>Cytunwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod y cerdyn roedd MPR wedi ei baratoi yn dderbyniol oni bai y tynnir i ffwrdd y cyfeiriad at y grŵp gwaed anarferol a oedd yn ddiangen. • dylid gyrru stoc o 5 o'r cardiau i bob aelod rhag ofn iddynt eu colli • gofyn i aelodau ddod a'r cerdyn hefo hwy ar deithiau'r clwb a'i gadw yn eu bagiau • dylai arweinyddion ddod a rhywfaint o gardiau sbâr hefo hwy i deithiau rhag ofn bod aelod wedi anghofio ei gerdyn • bod MPR yn trefnu eu hargraffu ac y bydd y clwb yn ysgwyddo'r gost. <p><u>Cerdyn Aelodaeth y Clwb</u></p> <p>Ehangwyd y drafodaeth wedyn i ystyried cerdyn aelodaeth y clwb. Roedd nifer o'r aelodau yn teimlo y dylid cyfeirio ar y cerdyn at y ffaith fod y clwb yn aelod o'r CMP. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol pan yn ceisio hawlio gostyngiad sy'n deilwng i aelodau CMP am nwyddau mewn rhai o'r siopau dringo</p> <p>Cytunwyd y dylid ychwanegu'r geiriau canlynol i gerdyn aelodaeth y clwb, rhif aelodaeth y clwb ac os oes lle, cynnwys logo'r CMP hefyd:</p> <p style="text-align: center;"><i>"Aelod BMC Affiliate"</i></p> <p><u>Graddio Teithiau Dringo</u></p> <p>Roedd y cyfarfod blynyddol wedi derbyn yr awgrymiadau a wnaed gan y pwyllgor ynglŷn â graddio gweithgareddau dringo'r clwb. Byddai AR yn trefnu i weithredu ar hyn.</p> <p><u>Fforwm Aelodau</u></p>	<p style="text-align: center;">MPR</p> <p style="text-align: center;">IPR/MPR</p> <p style="text-align: center;">AR</p>

	<p>Yn y cyfarfod blynyddol cytunwyd y byddai mwy o sylw yn cael ei roi i'r Gweplyfr er mwyn ceisio y gweld os byddai'n bosib ei ddefnyddio i ddiwallu'r angen am fforwm i aelodau'r clwb allu cysylltu â'i gilydd. Roedd nifer o aelodau'r pwyllgor ddim yn credu ei fod yn gwneud hynny ac y dylid ail ystyried y posibilrwydd o gael fforwm penodol i aelodau. Cyfeiriwyd at y ffaith fod gan Gymdeithas Mynydda Clwyd a sawl chymdeithas arall fforwm o'r fath yma ar eu safleoedd We.</p> <p>Cytunwyd y byddai SS yn gwneud ymholiadau i weld beth oedd yn bosib cael a beth fyddai'r oblygiadau o hynny gan gynnwys oblygiadau ariannol. Gofynnwyd i GR gysylltu hefo IaG i'w hysbysu o drafodaethau diweddaraf y pwyllgor ar hyn.</p>	SS/GR
3.	<p>TREFNIADAU TAITH Y CLWB I'R ALBAN</p> <p>Cynigiodd SS nifer o awgrymiadau i wella trefniadau ar gyfer yr wythnos a dreulir gan aelodau'r clwb yn yr Alban bob Chwefror. Cafwyd trafodaeth ar yr hyn a oedd yn cael ei gynnig gan SS ac fe gytunwyd ar y canlynol:</p> <p>Gwnaed y pwynt gan nifer o aelodau bod yr wythnos hon yn wahanol i weithgareddau arferol y clwb yn y ffaith nad oedd un arweinydd yn gyfrifol am drefnu teithiau ond yn hytrach mai wythnos ydoedd lle'r oedd aelodau'r clwb yn gwahanu i fyny i wahanol grwpiau i wneud gwahanol weithgareddau. Cyfrifoldeb pob unigolyn oedd trefnu eu gweithgareddau wedi trafod hefo'r aelodau eraill yno ac yn unol a'i allu ef/hi. Nid oedd pob taith/gweithgaredd yn addas i bawb.</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod natur yr wythnos yn yr Alban fel y nodir uchod yn cael ei gwneud yn glir i bawb a oedd yn dangos diddordeb mewn dod a hefyd dylid pwysleisio ei fod yn wythnos anodd a heriol hefo teithiau tir. • Dylid darparu rhestr dillad ac offer i aelodau sy'n bwriadu mynd. Dylid hefyd dweud wrthynt ddod a phhecyn cymorth 1af personol a sicrhau fod ganddynt fapiau o'r ardal dan sylw. • Fel yr arfer, dylid annog pobl i rannu ceir i fyny ac yn ôl yn ystod yr wythnos • Dylid cadw cofnod o bwy sydd yn mynd ar ba daith a dylai pob grŵp adael nodyn o'u bwriad am y diwrnod yn y caban cyn gadael • Dylai pob grŵp sy'n mynd allan gario rhaff a shelter hefo hwy 	MPR
4.	<p>CYFANSODDIAD Y CLWB</p> <p>Oherwydd prinder amser cytunwyd y gellid gohirio'r eitem yma tan y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ym mis Mai.</p>	
5	<p>SWYDD – YSGRIFENNYDD GWEITHGAREDDAU</p> <p>Cadarnhaodd MPR oherwydd pwysau gwaith ei fod yn dymuno rhoi gorau i'r swydd erbyn y cyfarfod blynyddol nesaf.</p> <p>Roedd y trefniadau i dderbyn manylion am weithgareddau dringo, teithiau dydd Mercher a theithiau'r de yn gweithio'n dda. Cael syniadau ag unigolion i drefnu teithiau yn y gogledd oedd y dasg anoddaf ganddo</p> <p>Cytunwyd y byddai RD yn trefnu i gael unigolion i arwain teithiau yn y gogledd ac y byddai MPR yn cydlynu'r gwaith o roi'r rhaglen at ei gilydd.</p> <p>Dylid fel cam 1af rhoi nodyn ar safle We'r clwb i ddweud y bydd y swydd Ysgrifennydd Gweithgareddau yn dod yn wag yn ystod y flwyddyn ac yn gofyn a oes aelod a diddordeb yn y swydd.</p>	RD/MPR
6	<p>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2012</p> <p>Cytunwyd oherwydd bod yr Eisteddfod i'w chynnal ym Mro Morgannwg, ei bod yn bur annhebyg y gellid cael hyd i bartneriaid i rannu'r gost o gael stondin ar y maes</p>	

	<p>ac felly ni fyddai'n ymarferol i'r clwb gael presenoldeb ar y maes eleni.</p> <p>Ystyriwyd syniad gan SS yn lle cael stondin ar faes yr eisteddfod y byddai'n bosib i'r clwb nodd i darlith flynyddol gan unigolyn ar fynydda yng Nghymru neu dramor yn un o'r pabelli gymdeithasau.</p> <p>Cytunwyd bod yna werth yn ystyried y syniad yma ond mai'r broblem fwyaf fyddai cael hyd i siaradwyr addas. Roedd pawb o'r farn na fyddai'n bosib trefnu hyn erbyn eisteddfod eleni ond ei fod yn rhywbeth y gellid ystyried yr ymarferoldeb ar gyfer yr eisteddfod yn Ninbych yn 2013 fel arbrawf. Gofynnwyd i bawb feddwl am enwau y gellir gofyn i fod yn siaradwyr gwadd.</p>	
7	<p>RHAGLEN HYFFORDDIANT 2012</p> <p>Ystyriwyd pa weithgareddau hyfforddi y gellid eu cynnig yn ystod y flwyddyn i ddod</p> <p>Cytunwyd ar y canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwrs Cymorth 1af ar y Mynyddoedd 2 ddiwrnod ym mis Hydref. JP i drefnu • Dylid anelu i geisio rhoi hyfforddiant map a chwmpawd yn eitha' rheolaidd ar raglen weithgareddau'r clwb • Cynnig diwrnod blasu - Cyflwyniad i ddringo. Dylid anelu i'w drefnu ar gyfer mis Mai/Mehefin. AW a AD yn fodlon helpu allan i hyfforddi ar y diwrnod. Angen rhywun i gydlynu'r trefniadau. 	<p>JP</p> <p>MPR</p>
8.	<p>OFFER</p> <p><u>Offer Dringo</u></p> <p>Adroddodd AR fod angen rhywfaint o raffau newydd</p> <p><u>Pecynnau Cymorth 1af i Arweinyddion</u></p> <p>Gofynnwyd i AW brynu 4 pecyn addas ar gyfer wythnos Alban a group shelters hefyd.</p>	<p>AR</p> <p>AW</p>
9.	<p>CAFFIS GWLEDIG</p> <p>Cytunwyd gohirio ystyried yr eitem yma tan y cyfarfod nesaf ym mis Mai</p>	
10.	<p>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</p> <p>Adroddwyd nad oedd unrhyw beth penodol i adrodd dan yr eitem yna y tro hwn.</p>	
11.	<p>PARTNERIAETH AWYR AGORED</p> <p>Adroddwyd nad oedd unrhyw beth penodol i adrodd dan yr eitem yna y tro hwn</p>	
12.	<p>RHAGLEN GWEITHGAREDD NESAF Y CLWB.</p> <p>Nodwyd y bydd MPR yn gweithio ar baratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer y clwb am y cyfnod o Fawrth i ddechrau Gorffennaf 2012 a'i fod angen derbyn awgrymiadau am deithiau mor fuan â phosib.</p>	MPR
13.	<p>CYFARFODYDD Y PWYLLGOR YN 2012</p> <p>Cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ym Mhlas y Brenin ym mis Mai a chan fod GE yn trefnu penwythnos i aelodau'r clwb ar y Bannau ym mis Medi, dylai'r cyfarfod mis Medi gael ei gynnal yno</p>	IPR

